

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Ymestyn Dwyieithrwydd o fewn y System Addysg

1 Rhagarweiniad

1.1 Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno i chi yn gwbl ganolog i'r thema:

“Datblygu addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod eang o bynciau ac ar bob lefel,”

ac i'r egwyddor a'r ystyriaethau allweddol (Atodlen B):

“...bod pob plentyn a myfyriwr yng Nghymru yn cael cyfle i ddod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg...”

“Dealltwriaeth glir o'r hyn a olygir gan y weledigaeth o 'Gymru ddwyieithog', ac asesiad o oblygiadau dehongli hyn mewn perthynas â hawliau ieithyddol unigolion a grwpiau

Dewisiadau eraill heblaw am y rhaniad 'Cymraeg fel cyfrwng / Cymraeg fel pwnc' (neu Cymraeg fel cyfrwng/Saesneg fel cyfrwng'), a'r potensial o ran defnyddio'r ddwy ieith fel cyfrwng deuol.”

1.2 Mae hi hefyd yn cysylltu'n glos â nifer o bwyntiau sydd yn eich Cylch Gorchwyl ac yn Atodlen B – Themâu allweddol:

“ Ceisio diffinio'n well sut y gellir hybu'r iaith Gymraeg a manteision dwyieithrwydd ym maes addysg a dysgu gydol oes wrth geisio cyflawni gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol, sef meithrin hunaniaeth unigryw ac amrywiol Cymru...”

...awgrymu strategaeth (neu o leiaf rhan o'r strategaeth) ar gyfer gweithredu ym meysydd addysg a hyfforddiant...”

“Datblygu addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod eang o bynciau ar bob lefel.”

Bydd yn cyffwrdd â “meithrin ymwybyddiaeth o gyfraniad posibl dwyieithrwydd i wella safon cyraeddiadau ar lefel ehangach,” trwy grybwyll y syniad bod defnyddio dwy iaith yn hytrach nag un yn gallu dyfnhau dealltwriaeth ac yn cynnig ffyrdd ymlaen ar gyfer ehangu mynediad i addysg ddwyieithog, sef hawl pob unigolyn yn y Gymru gyfoes.

Bydd yn delio'n fanylach â hyfforddiant cychwynnol a'r

“...pwyslais ar fethodoleg ddwyieithog a'r her / goblygiadau a ddaw yn sgil dysgu'n ddwyieithog.” (Atodlen B)

er mwyn “datblygu sgiliau dwyieithog a Chymraeg” drwy'r system addysg.

1.3 Mae fy sylwadau wedi'u seilio ar wahanol astudiaethau ymchwil yn ystod y 10 mlynedd diwethaf a'm profiad dysgu ar draws yr holl sectorau addysg yng Nghymru ers dros 30 mlynedd.

2 Yr astudiaethau a'r projectau ymchwil mwyaf perthnasol i'r dystiolaeth a gyflwynir yw:

2.1. Astudiaeth o **sefyllfa drochi ddiweddar** yn Ysgol Maes Garmon y Wyddgrug lle bûm yn dilyn dosbarth o ddysgwyr a dderbyniwyd o'r sector cynradd di-Gymraeg i'r ysgol hon. Bûm yn dilyn y dosbarth am 5 mlynedd rhwng Gorffennaf 1994 a Mawrth 1999.

“Prif bwrpas yr astudiaeth oedd edrych ar arferion addysgu llwyddiannus gyda dosbarth dysgwyr mewn ardal Seisnig a cheisio datrys y gyfrinach sydd yn troi'r disgyblion o fod yn uniaith Saesneg bron i fod yn rhugl ddwyieithog erbyn blwyddyn 11. Nod arall yw dadansoddi a thrafod y dulliau hynny y mae'r athrawon yn eu defnyddio mewn modd ansodol, a'u lledaenu i ysgolion eraill a allai elwa arnynt. Pe byddid yn codi'r disgwyladau statudol, i gynnwys dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol uwchradd, byddai rhai o'r dulliau ac arferion a welir yn y astudiaeth hon yn arwain y ffordd i ysgolion eraill yng Nghymru.”

(Gweler **Atodiad A** am ffurf gryno o'r bennod olaf o'r astudiaeth hon)

2.2 Crynodeb o wahanol fodelau o ddysgu dwyieithog

Seiliwyd y papur hwn ar enghreifftiau a welwyd dros y blynyddoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, yr ymchwil a nodir yn 2.1 uchod, projectau ymchwil datblygol mewn Addysg Bellach a gwaith gyda'r Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Cymru, Bangor ac ar broiect lle'r oedd nifer o adrannau Addysg ein prifysgolion yn cydweithio (Project ESCALATE).

Gellid dadlau er hynny mai'r sefyllfa fwyaf naturiol o safbwynt defnyddio dwy iaith yn yr un dosbarth yw'r un a welir mewn degau o ysgolion cynradd ledled y wlad lle mae dysgwyr diweddar a Chymry mamiaith naturiol yn cael eu cyd-ddysgu yn yr un dosbarth. Mae'r wythnosau cynnar yn ystod cyfnod unrhyw garfan newydd mewn Canolfan i Hwyrddyfodiaid yn yr hen Ddyfed neu'r hen Wynedd hefyd yn cynnig enghreifftiau o ddysgu dwyieithog hynod effeithiol.

(Gweler Atodiad B am bapur yn ymdrin â rhai o'r gwahanol fodelau hyn, papur a ddiweddarwyd yn ddiweddar.)

2.3 Trawsieithu – sgil ar gyfer datblygu dwyieithrwydd

Yn syml, ystyr trawsieithu yw (i) derbyn gwybodaeth mewn un iaith a (ii) ei defnyddio neu ei chymhwyso yn yr iaith arall. Mae'n sgil sy'n digwydd yn naturiol mewn bywyd bob dydd e.e. pan fo plentyn yn derbyn neges ffôn ar ran ei fam yn Saesneg ac yna'n ailgyfleu'r neges honno iddi yn Gymraeg. Mae angen meithrin a datblygu'r sgil hon yn systematig drwy'r gyfundrefn addysg fel bod y meddwl yn gallu troi'n sydyn o'r naill iaith i'r llall a thrwy hynny fanteisio ar ein dwyieithrwydd yng Nghymru.

(Mae ymdriniaeth ychydig yn llawnach yn Atodiad C.)

3 Rhai Casgliadau Perthnasol

Mae rhai casgliadau perthnasol iawn yn codi o'r astudiaethau a'r projectau a amlinellwyd yn Adran 2.

3.1 Mae angen ymestyn sefyllfaoedd trochi diweddar i fwy o ardaloedd yng Nghymru fel bod mwy o ddisgyblion yn cael cyfle i ddatblygu eu dwyieithrwydd. Mae nifer o bosibiliadau ar gyfer gwneud hynny yn y sector cynradd fel y mae'r grŵp o 'arbenigwyr ar addysg drochi' a gynullwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ei awgrymu. Yn y papur hwn cyfyngir i'r sefyllfa drochi yn yr uwchradd. Cynigir dau ddull posib o weithredu.

(i) Cynnig y cyfle i ddysgwyr drosglwyddo o'r sector cynradd Saesneg i'r sector uwchradd Cymraeg / Dwyieithog mewn mwy o ysgolion penodedig Cymraeg / Dwyieithog trwy drefnu dosbarth o ddysgwyr diweddar fel y gwna Ysgol Maes Garmon. Mantais defnyddio'r ysgolion sydd yn y sector Cymraeg / Dwyieithog eisoes yw bod yr adnoddau a'r athrawon dwyieithog ar gael yno eisoes ac byddai dilyniant ar gyfer grŵp o'r fath ar gael yn yr ysgolion hynny.

(ii) Ymestyn cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Bellach, gyda'r Gymraeg yn bwnc craidd neu sylfaen ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru, mae sylfaen gadarn ym mwyafrif yr ardaloedd ar gyfer gwneud hynny. Cam naturiol fyddai astudio rhannau o'r cwricwlwm cyflawn (h.y. pynciau unigol), neu rannau o nifer o feysydd cwricwlaidd trwy'r Gymraeg. Byddai hynny yn ei dro yn rhoi pwrpas real i ddysgu'r Gymraeg yn y sector cynradd a byddai defnyddio'r iaith yn gyfrwng ar gyfer rhan o'r cyfnod uwchradd yn gwneud y Gymraeg yn llawer mwy perthnasol. Byddai'n rhaid cynllunio datblygiad o'r fath yn fanwl ac yn gynyddol trwy rannu'r pynciau sy'n addas ar gyfer y cam hwn yn ôl dwyster y defnydd ieithyddol ynddynt. Yna, gellid gymharu hynny gyda'r cam y mae pob grŵp o ddysgwyr wedi'i gyrraedd ar gontiniwm cyfrwng Cymraeg e.e.

Cam 1: Ar gyfer rhai sydd â gafael cymharol sigledig ar y Gymraeg. Cychwyn gyda'r pynciau ymarferol e.e. Addysg Gorrfforol, Technoleg, Celf gan fod disgyblion yn aml yn ymgolli yn y weithgaredd gan anghofio'u bod yn datblygu a defnyddio ail iaith mewn sefyllfaoedd o'r fath;

Cam 2: Ar gyfer rhai sydd a gafael llawer sicrach ar y Gymraeg. Cynnig y pynciau sydd wedi'u rhestru yng Ngham 1 ac elfennau o bynciau megis Mathemateg a Gwyddoniaeth lle mae defnydd dwys o iaith yn digwydd am gyfnodau byrion neu'n cael eu rhannu gan gyfnodau ymarferol o 'wneud,' 'cymhwyso' neu 'ateb'.

Cam 3: Ar gyfer y rhai sydd wedi croesi'r bont ac yn meddu gafael weithredol dda ar y ddwy iaith. Cynnig y pynciau sydd wedi'u rhestru yng Ngham 1, ac elfennau o'r pynciau sydd yng Ngham 2 yn ogystal ag elfennau o bynciau trymach fyth yn ieithyddol e.e. Hanes, Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol.

3.2 Diffinio'n union yr hyn a olygir wrth ddysgu dwyieithog

Mae angen diffiniadau cytunedig o dermau megis "dysgu dwyieithog," "dysgu yn y sefyllfa ddwyieithog," "dysgu sy'n datblygu'r ddwy iaith," "dysgu trwy gyfrwng y ddwy iaith," ayb. Oherwydd diffyg diffiniadau, mae rhai o'r termau hyn yn cael eu camddehongli. Er bod Atodiad B yn cychwyn disgrifio a dadansoddi gwahanol fodelau o ddysgu dwyieithog mae angen llawer mwy o ymchwil i'r gwahanol fodelau hyn a diffinio'u pwrpas.

Mae byd o wahaniaeth rhwng (i) dysgu dwyieithog sy'n amcanu i ddatblygu dwyieithrwydd pob unigolyn yn y dosbarth a (ii) dysgu dwyieithog sy'n golygu rhoi'r rhai sy'n dysgu trwy'r Gymraeg a'r rhai sy'n dysgu trwy'r Saesneg yn yr un dosbarth i bwrpas gweinyddol a chyllidol yn unig. Dylid symud oddi wrth yr ail sefyllfa i gyfeiriad y sefyllfa gyntaf.

3.3. Cyflwyno trawsieithu fel sgil i'w datblygu trwy'r system addysg

Un rheol euraid yn y gorffennol oedd peidio â defnyddio'r ddwy iaith yn yr un sefyllfa ddysgu. Bellach, dylem fod yn ddigon hyderus yn ein dwyieithrwydd i ganiatau symud yn systematig o'r naill iaith i'r llall i bwrpasau addysgol. Gallai disgybl sy'n dilyn Hanes Cymru trwy'r Saesneg, elwa o ddefnyddio'r gyfres Gymraeg "Cymru 2000" a gall disgybl sy'n astudio Daearyddiaeth trwy'r Gymraeg elwa o ddilyn rhaglenni teledu Saesneg. Y nod yw manteisio'n llawn ar ddatblygu a defnyddio ein dwyieithrwydd.

Mae angen i athrawon allu rheoli'r sefyllfa fel ei bod yn cyfoethogi'r ddwy iaith yn hytrach na defnyddio un i ddisodli'r llall. Trwy hyn wedyn, gellir cyfoethogi'r profiadau addysgol a chryfhau dealltwriaeth ein disgyblion.

4 Oblygiadau ac Ystyriaethau Pellach

Mae nifer o oblygiadau ymarferol pellach y gellir eu hystyried wrth greu strategaeth ar gyfer "Datblygu addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws ystod eang o bynciau ac ar bob lefel." Bodlonir yma ar eu rhestru yn unig.

- Gwneud y Gymraeg ail iaith yn bwnc craidd fel y bydd yn cael ei asesu ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Mantais hyn fyddai sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn cymryd y pwnc o ddifrif a gallai hynny arwain at godi'r safonau'n gyffredinol.
- Ystyried datblygiad pob disgybl ar gontiniwm dwyieithog er mwyn normaleiddio dwyieithrwydd. Gallai hynny arwain at gael pawb yn dilyn rhan o'r cwricwlwm trwy'r Gymraeg ac arwain at ystyried dwyieithrwydd yn rhan integrol o unrhyw gynlluniau cwricwlaidd newydd e.e. y Fagloriaeth.
- Dylai ACCAC ystyried datblygiad y ddwy iaith yn gyfrwng fel rhan o ddatblygiad unigryw unrhyw ddisgybl o fewn y system addysg yng Nghymru.
- Adeiladu ar yr 11 mlynedd o ddysgu Cymraeg y mae disgyblion Cymru yn eu cael trwy eu derbyn ar gyrsiau hyfforddi athrawon a fydd wedi'u cynllunio i ymestyn a chryfhau eu dwyieithrwydd. Ar yr un pryd eu hyfforddi i gyflwyno'r (i) cwricwlwm (yn y sector cynradd) neu (ii) eu pynciau (yn y sector uwchradd) yn ddwyieithog. Trwy wneud hyn dros gyfnod byddai'r system yn cael ei chryfhau ac yn datblygu'n system gynaladwy.
- Cynyddu cwotâu ar gyfer athrawon dwyieithog ar gyfer y sector cynradd ac mewn meysydd penodol sy'n rhan o strategaeth ymestyn dwyieithrwydd a dysgu cyfrwng Cymraeg yn y sector uwchradd. [Gweler 3.1 pwynt (ii)].
- Cyflwyno modiwl(au) / elfennau (i) ar ddefnyddio dwy iaith mewn dysgu a (ii) ar werth a dulliau datblygu trawsieithu i bob cwrs hyfforddi athrawon cychwynnol yng Nghymru sy'n paratoi myfyrwyr ar gyfer gweithio yn unrhyw ran o Gymru.
- Cynnal mwy o ymchwil i (i) ddefnyddio dwy iaith mewn dysgu (ii) trawsieithu fel sgil addysgol (iii) trochi diweddar (iv) dulliau dysgu llwyddiannus e.e. y rhai a ddefnyddir yn y canolfannau i hwyrddyfodiaid (v) unrhyw agweddau perthnasol eraill, fel y byddwn yn datblygu ein system addysg ddwyieithog ar sail ymchwil gadarnach.

- Creu dilyniant mewn addysg ôl 16, hyfforddiant ac addysg uwch fel bod cyfrwng Cymraeg a neu dwyieithog ar gael drwy'r system addysg ac addysg gydol oes.

Cen Williams
(12:03:02)

Atodiad A – Pennod 6 o'r adroddiad Ennill Iaith

Pennod 6 Llyfr Taith ar gyfer Teithwyr y Dyfodol

6.1 Rhagarweiniad

6.2 Trefniadaeth

6.3 “Mae pob athro yn athro iaith...”

6.4 Defnyddio'r Sgiliau Iaith Gweithredol

6.5 Cyfrifoldeb Gwahanol Adrannau

6.6 Theori Dysgu Dwyieithog

6.7 Trosglwyddo'r Syniadau i Ysgolion Eraill

6.8 Diwedd y Daith - Argymhellion i'r Gwahanol garfanau

6.9 Diweddu gyda Diolch

6.1 Rhagarweiniad

Mae dau bwrpas i'r bennod olaf hon:

- (i) cloi'r adroddiad trwy gynnig argymhellion pendant sy'n seiliedig ar yr hyn sydd ym mhenodau 1 - 5, a
- (ii) cysylltu rhai o'r pwyntiau a'r argymhellion gyda theori ac ymchwil; yn yr achosion hyn, cyfeirir yn helaeth at Williams (1994)

Dylai felly, gynnig theorïau a dulliau gweithredu sydd yn adeiladu ar yr hyn a welwyd. Dyna felly fydd pwrpas

- i) adran 6:5 sy'n canolbwyntio ar rôl y gwahanol bynciau mewn perthynas gyfannol â datblygu iaith disgyblion, a
- ii) adran 6:6 sy'n cynnig theori ddysgu ddwyieithog y gallai ysgolion ei threialu, ei haddasu ac adeiladu arni.

Nodir ar gyfer pa gynulleidfa yn bennaf y mae'r argymhelliad neu gwestiwn trafod wedi'i gyfeirio yn ôl yr allwedd canlynol:

A	Gweinyddwyr y Gyfundrefn Addysg yng Nghymru
B(i)	Gweinyddwyr a Phrifathrawon yr ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg
B(ii)	Gweinyddwyr a Phrifathrawon ysgolion sy'n y sector cyfrwng Saesneg yng Nghymru

C	Athrawon uwchradd wrth eu gwaith o ddydd i ddydd
----------	--

A B(i) B(ii)	<p>Yr ysgol yn yr astudiaeth yma yw'r unig ysgol benodedig ddwyieithog yng Nghymru sy'n derbyn dosbarth cyfan o ddysgwyr na fu trwy'r system gynradd cyfrwng Cymraeg ac sy'n eu troi'n ddisgyblion dwyieithog (Cymraeg/Saesneg) o fewn y cyfnod uwchradd.</p> <p>A ddylai pob ysgol ddwyieithog yng Nghymru gynnig darpariaeth debyg ar gyfer carfan o ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo i'r sector cyfrwng Cymraeg yn 11 oed?</p> <p>Sut y gallai rhai o'r 177 ysgol sydd y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg gryfhau eu darpariaeth hwythau?</p>
---	--

6.2 Trefniadaeth

B(i) B(ii)	<p>Lle mae ysgol yn addasu'r cwricwlwm i bwrpas meistrolï'r Gymraeg trwy ei defnyddio'n gyfrwng dysgu, nid yw'n ymddangos fod hynny'n niweidio perfformiad disgyblion yn y pynciau eraill, hyd yn oed pan ohirir cyflwyno'r pwnc am flwyddyn.</p>
-----------------------------	---

6.3 "Mae pob athro yn athro iaith...."

Yn ysgol yr astudiaeth, gwelwyd athrawon a oedd yn deall, (i) "y prosesau ieithyddol sydd ynghlwm wrth ddulliau plentyn o sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth," (Adroddiad Bullock, DES, 1975) a (ii) yn gwybod beth oedd oblygiadau hynny i'w defnydd nhw'u hunain o iaith yn yr ystafell ddosbarth. Roeddynt yn ymwybodol iawn:

- ◆ mai dysgwyr oedd aelodau'r dosbarth a bod angen defnyddio'r famiaith (sef Saesneg) yn ogystal â'r ail iaith, i sicrhau dealltwriaeth lawn;
- ◆ o sut y mae defnyddio'r famiaith i ymestyn yr ail iaith a chadarnhau dealltwriaeth yr un pryd, wrth drin a thrafod cysyniadau;
- ◆ pa bryd yr oedd (i) dosbarth a (ii) unigolion o fewn y dosbarth yn dod yn ddigon hyderus a hyfedr yn y Gymraeg i allu defnyddio llai o Saesneg.

Yna, o flwyddyn 9 ymlaen, roeddynt yn ymwybodol:

- ◆ fod eu defnydd nhw fel athrawon o iaith yn elfen bwysig ac allweddol yn eu gallu i ddysgu eu pwnc yn effeithiol;

ac yn yr un modd,

- ◆ bod y defnydd a wnâi'r disgyblion o iaith yn y dosbarth, ac yn arbennig felly eu hail iaith, yn cyfrannu'n fawr tuag at eu gallu i lwyddo yn y pwnc.

Mae hyn yn cytuno'n llwyr ag ymchwil o Unol Daleithiau'r America sy'n datgan mai un ffactor bwysig bellach ym maes dysgu a meistrolï'r ail iaith yw fod angen integreiddio iaith a chynnwys, (Milk, 1990, t.34). Awgryma ef ymhellach fod angen datblygu cysyniadau trwy gyfrwng y ddwy iaith, gan fanylu ar y gydberthynas rhyngddynt yn yr ystafell ddosbarth. Rhaid edrych ar y mewnbwn a gaiff y disgyblion yn ôl Christian, gan wneud yn siwr ei fod yn synhwyrol a dealladwy, (Christian et al, 1990, t. 145).

Pwysleisir gan Cummins (1991) fod yn rhaid i lunwyr polisïau ystyried yr agweddau pedagogaid a'r rhyngweithio sydd ar waith yn y dosbarth gan mai'r agweddau hyn sydd yn ddiffygiol yn aml, lle ceir methiannau. Os yw hyn yn wir ar lefel genedlaethol, mae hefyd yn wir ar lefel awdurdod ac ysgol. Dyna paham y mae'r rhyngweithiadau gwahanol a geir rhwng:

- athro a disgybl;
- disgybl a disgybl;
- deunyddiau a disgybl

yn rhai mor bwysig i'w hystyried wrth ymgyrraedd at lwyddiant. Yn yr ysgol a astudiwyd ar gyfer yr astudiaeth hwn, gwelwyd theorïau Christian, Cummins a Milk ar waith mewn cyd-destun ymarferol.

6.4 Defnyddio'r Sgiliau Iaith Gweithredol

Yn ystod y misoedd cyntaf yn yr ysgol, roedd yr athrawon yn canolbwyntio'n bennaf ar y sgiliau goddefol (gwrando gan fwyaf), ond yn ystod y cyfnod yng Nglan llyn, roedd gweithgareddau strwythuredig yn rhoi cyfle i'r dosbarth ddatblygu'r sgiliau gweithredol gan ganolbwyntio'n gyntaf ar siarad. (Gweler 3.1.3).

<p>B(i) B(ii) C</p>	<p>Mae angen strwythuro'r ffordd y mae grŵp o ddysgwyr yn defnyddio'r gwahanol sgiliau iaith (goddefol a gweithredol) er mwyn cyflymu'r broses o ddefnyddio'r iaith yn gyfrwng.</p> <p>Rhaid sicrhau bod y disgyblion, unwaith y bo dealltwriaeth oddefol dderbyniol ganddynt, yn cael cyfle i ddefnyddio'r sgiliau gweithredol mewn cyd-destun real.</p> <p>Dylai athrawon pwnc uwchradd sydd yn cyflwyno'u pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt, ddod yn ymwybodol o sut mae (i) eu defnydd nhw'u hunain o iaith, a (ii) defnydd y disgyblion o'r sgiliau gweithredol, yn gallu effeithio ar ddyfnder eu dealltwriaeth o'r pwnc. (Yng nghyd-destun Cymru, gellir cymryd yn ganiataol bod dysgwyr ym mhob dosbarth pynciol Cymraeg.)</p> <p>Mae'n bwysig mewn unrhyw gyd-destun dwyieithog, bod athrawon yn ymwybodol o lefel cyrhaeddiad plentyn yn y ddwy iaith. I'r pwrpas hwnnw byddai meddwl am leoliad plentyn ar gontinuwm dwyieithog yn gam creadigol ymlaen.</p>
--	--

Enghraifft o ddefnyddio dwyieithrwydd yn weithredol yn yr astudiaeth hon gan gryfhau'r cyd-ddibyniaeth rhwng y ddwy iaith tra'n eu cryfhau yr un pryd yw **trawsieithu** (gweler 5.3). Ceir ymdriniaeth â dwyieithrwydd fel sgil i'w datblygu mewn erthygl gan awdur yr adroddiad hwn (Williams, 2001) o lle y cymerwyd y dyfyniad isod:

.....Rhaid pwysleisio mai'r nod yng Nghymru yw **cryfhau a defnyddio'r ddwy iaith i lefel uchel i ddatblygu disgyblion cytbwys a hyderus ddwyieithog**. Oherwydd hynny, rhaid mabwysiadu dulliau datblygu a chryfhau gwahanol. (Mae'r nod yn UDA yn wahanol gan mai meistrolï'r ail iaith, sef Saesneg, i ddisodli'r iaith frodorol mewn addysg, yw'r nod yno yn amlach na pheidio.) Un dull neu strategaeth ar gyfer gwneud hynny yw Trawsieithu. Gwêl Baker (2000) ei bosibiliadau:

"Translanguaging has two potential advantages. It may promote a deeper and fuller understanding of the subject matter. It is possible in a monolingual context, for students to answer questions or write an essay without fully understanding the subject. Whole sentences or paragraphs can be copied or adapted from a textbook without rarely understanding them. This is less easy in a bilingual situation. To read and discuss a topic in one language, and then to write about it in another, means that the subject matter has to be properly 'digested' and reconstructed. Translanguaging may also help students develop skills in their weaker language...."(The Care and Education of Young Bilinguals. Multilingual Matters, 2000. t104-105)

Beth yw trawsieithu felly a sut mae ei ddefnyddio?

Y diffiniad symlaf yw:

- ◆ **derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yna, ei**
- ◆ **defnyddio yn y yr iaith arall.**

Mae pob iaith yn datblygu trwy ei defnyddio mewn sefyllfaoedd pwrpasol a real. Ac mae hynny'n arbennig o wir am ddysgu ail iaith a dal i ddefnyddio'r ddwy gan eu datblygu a'u gwella'n gyson. Yr hyn sy'n digwydd gyda trawsieithu yw ein bod yn:

- ◆ **derbyn** gwybodaeth trwy'r medrau iaith **goddefol** (gwrando a darllen), ac yna'n:
- ◆ **defnyddio'r** wybodaeth gan ddefnyddio'r medrau iaith **gweithredol** (siarad ac ysgrifennu).

Dull ar gyfer plant sydd wedi cael gafael eithaf da ar y ddwy iaith yw trawsieithu; strategaeth i gadw ac i ddatblygu dwyieithrwydd yn hytrach na rhoi ail iaith i blant yn y lle cyntaf. A dyma sydd ei angen yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain: ffordd o gadw a defnyddio'r ddwy iaith. Mewn sawl rhan o Gymru, mae llwyddiant athrawon meithrin, babanod a chynradd wrth gyflwyno'r ail iaith i ddisgyblion yn rhyfeddol; eu cadw'n ddwyieithog wedi hynny yw'r gamp.

Argymhellion

<p>B(i) B(ii) C</p>	<p>Mae derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yna'i defnyddio mewn iaith arall yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion dreulio'r wybodaeth yn llawnach. Dylid felly, ddatblygu trawsieithu fel sgil hanfodol yn y Gymru ddwyieithog gan fod gallu trin a thrafod deunydd pynciol yn y ddwy iaith i'w weld yn hybu dealltwriaeth.</p> <p>Trwy ddefnyddio a meistroli trawsieithu gall disgyblion yn y sector ddwyieithog, fanteisio mwy ar werslyfrau a rhaglenni teledu Saesneg eu hiaith. (Ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud nad oes angen datblygu deunyddiau cyfeiriol a gwerslyfrau Cymraeg.)</p> <p>Byddai datblygu trawsieithu sy'n gweithio'r ddwy ffordd, h.y. o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ogystal ag o'r Saesneg i'r Gymraeg yn rhoi cyfle i athrawon a disgyblion fanteisio ar yr adnoddau gorau yn y ddwy iaith.</p>
--	--

6.5 Cyfrifoldeb Gwahanol Adrannau

Yn ystod yr astudiaeth hon, un nodwedd amlwg oedd fod pob adran yn gweld ac yn ysgwyddo ei chyfrifoldeb i ddatblygu Cymraeg y dosbarth dysgwyr, sef y grŵp targed, ac yn arbennig felly ym mlynnyddoedd 7 ac 8.

Yr oedd pob adran ac unigolion o fewn adrannau yn mabwysiadu eu dulliau eu hunain o ymateb i ddatblygiad dwyieithog y disgyblion ac nid oedd hi'n amlwg fod gwahanol adrannau'n cymryd cyfrifoldeb am agweddau penodol o'r datblygiad hwnnw. Gyda chynllunio mwy manwl gellid nodi agweddau o ramadeg / datblygiad ieithyddol sy'n digwydd yn naturiol mewn adran / pwnc penodol. Rhestrir rhai o'r agweddau hyn yn yr adroddiad llawn fel help i bob adran adfyfyrio ar eu cyfrifoldebau eu hunain ac i'r cydgyssylltwyr iaith neu'r tîm rheoli feddwl am y darlun cyflawn.

<p>B(i) B(ii) C</p>	<p>Er mwyn cyflymu datblygiad dwyieithog dysgwyr a'u helpu i ddatblygu'n hyderus ddwyieithog:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) dylai pob ysgol fabwysiadu polisi sy'n gosod cyfrifoldeb ar adrannau am ddatblygu gwahanol agweddau ieithyddol sy'n digwydd yn naturiol yng ngwaith yr adran; (ii) o fewn polisi cyfannol o'r fath dylai rôl yr adrannau iaith hefyd gael ei diffinio'n glir fel nad yw'r holl gyfrifoldeb a disgwyliadau yn disgyn arnyn nhw; (iii) dylai pob adran o fewn yr ysgol fod yn glir ynglŷn â'i chyfrifoldeb ieithyddol ei hun. <p>Mewn ysgol ddwyieithog, dylid mabwysiadu polisi tebyg ar gyfer y Saesneg yn ogystal, yn arbennig felly yn yr ardaloedd Cymreiciaf a'r ysgolion dwyieithog traddodiadol.</p>
--	--

Mae'r hyn a nodwyd yn yr adran hon, sef 6.5, yr un mor berthnasol wrth ddatblygu polisi iaith ar draws y cwricwlwm neu wrth rannu'r cyfrifoldebau ieithyddol ar gyfer plant mamiaith (Cymraeg neu Saesneg) hefyd. Ond mewn sefyllfaoedd lle mae'r iaith yn ail iaith i'r disgyblion, mae hi'n gwbl angenrheidiol strwythuro'r datblygiad dwyieithog.

<p>B(i) B(ii) C</p>	<p>Yn aml mewn ysgolion, lle mae dosbarthiadau dysgwyr da (h.y. y rhai sydd wedi bod yn dysgu'r iaith am nifer o flynyddoedd) y duedd yw cynnig Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth a Hanes iddyn nhw trwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd y cynnwys ieithyddol trwm (gweler y rhagarweiniad i'r adrannau Dyniaethau, Mathemateg ac Addysg Gorfforol), gallai hyn fod yn gamgymeriad.</p> <p>Gwell fyddai rhannu pynciau'n grwpiau yn ôl y defnydd a wneir o iaith ynddynt a'r berthynas rhwng y defnydd hwnnw a chynhaliaeth anieithyddol, gan gadw'r Dyniaethau ar gyfer y lefel uchaf o ymwneud trwy gyfrwng yr ail iaith yn ôl y dosbarthiad sy'n dilyn:</p> <p>Cam 1: Pynciau ymarferol e.e. Addysg Gorfforol, Technoleg, Celf</p> <p>Dyma'r pynciau y gellid eu cyflwyno'n gyntaf i ddysgwyr lle mae nifer ohonynt yn weddol brin eu gafael ar yr ail iaith.</p> <p>Cam 2: Pynciau fel Mathemateg a Gwyddoniaeth</p>
--	--

	<p>Pynciau lle mae'r elfen ieithyddol yn cael ei chyflwyno mewn cyfnodau byrion sy'n arwain at wneud, cymhwysio ayb.</p> <p>Cam 3: Pynciau fel Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth a Hanes</p> <p>Pynciau sy'n mynnu meistrolaeth lefel uchel ar iaith y cyflwyno neu fe allai perfformiad yn y pwnc ddioddef.</p> <p>Felly, dylai'r ysgolion hynny sy'n cynnig y Dyniaethau a'r Dyniaethau'n unig i ddisgyblion ail iaith ailystyried y sefyllfa.</p>
--	--

6.6 Theori Dysgu Dwyieithog

Yn rhai o'r gwersi cyntaf yn yr astudiaeth yn ystod yr wythnos i baratoi'r disgyblion ar gyfer eu hysgol newydd (Pennod 2), gwelwyd pwt o wers Fioleg lle'r oedd yr athro'n defnyddio'r ddwy iaith trwy gyfrwng y dysgu. Mae nifer o egwyddorion pwysig ac adeiladol y gellid eu pwysleisio yn y wers hon a fyddai'n sail ar gyfer datblygu methodoleg addysgu ddwyieithog. Gosodir y syniadau hyn eto mewn cyd-destun theoretig a thynnir y sylwadau yn eu crynswth o adroddiad arall, Williams, Lewis a Baker (1996). Ceir ymdriniaeth fanwl yn yr Adroddiad llawn.

Mae Jacobson a Faltis yn yr Unol Daleithiau wedi datblygu theori dysgu dwyieithog wedi'i seilio ar giwiau ar gyfer newid iaith wrth addysgu, ond nodir un ar bymtheg o giwiau gwahanol. Mae'n afresymol disgwyl i unrhyw athro fod yn ymwybodol o gymaint o giwiau wrth addysgu.

O newid y pwyslais i feddwl am y gofynion ieithyddol a chysyniadol sydd ar y plentyn ym mhob sefyllfa yn yr ystafell ddosbarth, gellir cwtdogi'r ciwiau 5 defnydd o iaith i addysgu a datblygu cysyniadau sef defnydd:

- mewn sefyllfa **ymarferol**
- i esbonio pwyntiau ieithyddol a gramadegol sef gwybodaeth am iaith - **ieithyddol**
- **cyfathrebol** - h.y. i gyfathrebu yn y dosbarth (BICS)
- **cyfarwyddiadol** h.y. i gyfarwyddo gwaith y dosbarth, cyflwyno a chwestiynu ar lefel lythrennol a syml (BICS y arwain at CALP)

- **gwybyddol** lle disgwylir i blentyn feddwl ac ystyried yn ddwfn er mwyn deall neu cyn ymateb (CALP).

O gymryd y labeli (mewn print trwm) uchod gellir **adeiladu theori addysgu ddwyieithog trwy benderfynu ar y polisi cyfrwng sy'n addas i bob sefyllfa**. Rhaid penderfynu pa un o'r categorïau ieithyddol canlynol sydd fwyaf priodol i'r grŵp yn ystod y cyfnod hwn yn eu datblygiad dwyieithog:

- drwy gyfrwng y famiaith bron yn gyfan gwbl
- dwyieithog gyda phwyslais ar y famiaith
- dwyieithog - cytbwys
- dwyieithog gyda phwyslais ar yr ail iaith
- drwy gyfrwng yr ail iaith yn unig.

e.e. gyda dosbarth o ddysgwyr prin iawn eu hiaith gellid mabwysiadu'r polisi cyfrwng canlynol:

ymarferol

- ◊ drwy gyfrwng yr ail iaith yn unig.

gwybodaeth am iaith

- ◊ dwyieithog - cytbwys

cyfathrebol

- ◊ dwyieithog gyda phwyslais ar yr ail iaith

cyfarwyddiadol

- ◊ dwyieithog - cytbwys

gwybyddol

- ◊ dwyieithog gyda phwyslais ar y famiaith

Trafodir trawsysgrif o wers wyddoniaeth gyntaf grŵp o ddysgwyr prin blwyddyn 7 yn yr adroddiad llawn. Yno, gwelir patrwm yn dechrau ffurfio; patrwm y gellid ei ddatblygu 'n fuan iawn yn y tymor cyntaf i ddilyn y polisi cyfrwng mwy heriol.

6.7 Trosglwyddo'r Syniadau i Ysgolion Eraill

Wrth gloi'r adroddiad hwn, rhaid gofyn i ba raddau y gellir trosglwyddo'r drefniadaeth, rhai o'r dulliau dysgu a'r llwyddiant a welodd un ysgol i ysgolion eraill?

Ni fyddai'n rhaid i'r drefniadaeth a fabwysiadwyd yn yr ysgol hon gael ei dyblygu mewn ysgolion eraill; gellid mabwysiadu'r dulliau cyflwyno a chael yr un llwyddiant gyda threfniadaeth beth yn wahanol. Mae gan ysgolion eraill wahanol ffyrdd o drefnu'r cwricwlwm; yr unig reswm y canolbwyntiwyd ar y drefniadaeth ym mhennod 2 oedd i ddangos un drefniadaeth bosib. Yr agweddau mwyaf allweddol yn y drefniadaeth oedd:

- ◆ yr wythnos ymweld ym Mehefin cyn eu derbyn i'r ysgol uwchradd a'r sylw ychwanegol yr oedd y disgyblion yn eu cael gan yr athrawon bro;
- ◆ y newid ym mhatrwm y cwricwlwm i roi mwy o amser cyswllt i'r Gymraeg;
- ◆ y ffaith bod Hanes a Daearyddiaeth yn cael eu cyflwyno ym mlwyddyn 7 gan athrawon a oedd wedi'u hyfforddi i ddysgu Cymraeg yn ogystal â'u pwnc;
- ◆ yr ymweliad â Glan llyn yn ystod Ionawr ym mlwyddyn 7,- carreg filltir allweddol i godi disgwyliadau a rhoi hyder llafar.

Wrth gynnig argymhellion i ysgolion eraill, rhaid ystyried natur yr ysgolion hynny ac addasu'r argymhellion ar gyfer y math o ysgol:

1 Yn ôl taflen ddata a gynhyrchwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer y flwyddyn ysgol 2000/2001, mae 52 o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg / dwyieithog yng Nghymru a 177 o ysgolion uwchradd eraill.

Yr ysgol darged yn yr astudiaeth hon yw'r unig un o'r 52 sy'n cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddsbarth cyfan o ddisgyblion na fu trwy'r sector cynradd cyfrwng Cymraeg.

Cymraeg / dwyieithog (52)	Ysgolion eraill (177)
Mae'r adnoddau gan yr holl ysgolion Cymraeg/dwyieithog i allu derbyn carfan fel y garfan darged a chynnig yr un profiadau iddynt. Efallai nad yw'r adnoddau staffio gan bob un ysgol i gynnig darpariaeth lawn ar draws y cwricwlwm. Ond gallent dderbyn dosbarth o ddisgyblion nad ydynt wedi bod trwy'r system gynradd cyfrwng Cymraeg. Trwy ddefnyddio rhai o'r dulliau a	Oherwydd nad oes gan yr ysgolion hyn staff dwyieithog ym mhob adran, byddai'n anodd trosglwyddo'r holl elfennau ar draws yr ysgol. Ond, yn yr adrannau hynny, lle mae ganddynt staff dwyieithog, gellid mabwysiadu nifer o'r dulliau a'r technegau cadarnhaol a grybwyllir yma. Er mwyn adeiladu ar ddwyieithrwydd y

thechnegau dysgu a amlinellir yma, gellir datblygu polisi a chwricwlwm cynyddol ddwyieithog wrth i'r disgyblion fynd trwy'r ysgol a phrofi llwyddiant gyda'r Gymraeg.	disgyblion ac ymestyn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg, dylai pob ysgol yn y categori hwn ystyried: i) faint o'r hyn sydd yn yr adroddiad y gallent ei fabwysiadu? ii) ym mha adrannau'n union? Wrth ystyried, dylent nodi'r pwyntiau yn 6.4, 6.5 (yn arbennig yn y bocs ar y diwedd) ac yn 6.6.
---	--

2 Erbyn Mehefin 2001, bydd pob disgybl 16 oed yng Nghymru (ar wahân i fewnfudwyr) wedi bod yn dysgu Cymraeg am 11 mlynedd. O gymryd mai 2 awr yr wythnos ar gyfartaledd o wersi Cymraeg y maen nhw'n eu derbyn gallai hynny olygu 880 awr yn ystod eu dyddiau ysgol.

Mae profiadau'r gorffennol wedi dangos mai wrth ddefnyddio'r iaith yn gyfrwng y daeth y llwyddiant mwyaf dwys a pharhaol.

Cymraeg / dwyieithog (52)	Ysgolion eraill (177)
Yn yr ysgolion hyn y profwyd y llwyddiant a hynny trwy ddefnyddio'r iaith yn gyfrwng. Mae lle iddynt ymestyn y llwyddiant hwnnw lle bo modd trwy dderbyn disgyblion na chawsant eu haddysg gynradd yn y sector cyfrwng Cymraeg os ydyw targed y Cynulliad fel y'i hamlygir yn y ddogfen ??? i gael ei gwireddu	Dylai pob ysgol yng Nghymru fod yn ddwyieithog i'r graddau y mae hynny'n bosib. Bellach, yn y sector yma mae twf real yn bosib a dylent adeiladu ar y cyfle a roddodd y Llywodraeth Geidwadol i ddisgyblion Cymru ddod yn ddwyieithog trwy ymestyn y dwyieithrwydd i bynciau cynnwys. Dyma fyddai'n eu gwneud yn weithredol ddwyieithog gan eu harfogi'n llawn ar gyfer y farchnad waith a swyddi yng Nghymru.

6.8 Diwedd y Daith - Argymhellion i'r Gwahanol garfanau

Yn y bennod gyntaf nodir nifer o garfanau gwahanol allai fod â diddordeb yn yr adroddiad hwn. Wrth gloi, nodir pa benodau a ddylai fod o'r diddordeb mwyaf i'r gwahanol grwpiau hynny:

Cynulleidfa	Penodau
Timau rheoli a llywodraethwyr sy'n gyfrifol am bolisiau staffio a iaith yr ysgolion sydd y tu allan i'r sector cyfrwng Cymraeg yng	1, 2, 3.5, 3.6, 6

Nghymru.	
Athrawon yn yr ysgolion sydd y tu allan i'r sector ddwyieithog swyddogol	3, 5, 6.
Athrawon yn yr ysgolion dwyieithog swyddogol	3, 4, 5, 6
Athrawon yn yr ysgolion traddodiadol ddwyieithog	3, 4, 5, 6
Hyfforddwyr athrawon sy'n gweithio yn adrannau addysg y prifysgolion ac mewn sefydliadau hyfforddi athrawon	3, 5, 6
Myfyrwyr sy'n dilyn y cyrsiau Tystysgrif Addysg i Raddedigion	3, 5, 6
Athrawon sydd yn y sector cynradd a darlithwyr sydd yn y sectorau Addysg Bellach ac Uwch	3, 5, 6
Ymchwilwyr ac athrawon mewn sefyllfaoedd dwyieithog ac amlieithog eraill	1 - 6
ACCAC	1, 2, 3, 5, 6

Er mwyn cael y darlun cyflawn, dylai pob carfan ddarllen yr adroddiad yn ei grynswth, ond awgrymir iddynt gychwyn gyda'r penodau/adrannau uchod, yn arbennig os yw amser yn brin.

6.9 Diweddu gyda Diolch

Diolch i'r dosbarth, Ysgol Maes Garmon, y ddau brifathro - y Dr Philip Davies a Mr Huw Alun Roberts, yr athrawon i gyd ac yn arbennig iawn i Mr Edwin Jones, y pennaeth blwyddyn rhadlon a drefnodd y cyfan, - y cwmni gwyliau megis. Gobeithio y bydd y gwaith hwn yn fap ac yn gyfeirlyfr gwerthfawr i chi.

MODELAU ADDYSGU DWYIEITHOG

Cen Williams

MODELAU ADDYSGU DWYIEITHOG

Yn y rhan hon, disgrifir modelau dysgu dwyieithog gwahanol. Nodir manteision ac anfanteision posibl pob un yn ei dro. Seilir y modelau ar:

- ymchwil flaenorol gan Y Swyddog Datblygu Addysg Drwy Gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiol sectorau addysg;
- prosiect wedi'i gyllido gan CCABC yn 1997-98 i astudio'r gwahanol ddulliau a modelau dysgu dwyieithog a oedd ar waith yn y sector Addysg Bellachⁱ;
- sylwadau gan staff yn ystod arolwg a wnaethpwyd ar ran y CCABC o'r modd yr oedd cyllid cyfrwng Cymraeg yn cael ei ddefnyddio yn y sector Addysg Bellach (1999 - 2000);
- yr hyn y sylwyd arno yn ystod prosiect cyfredol, a ariannwyd gan y Swyddfa Gymreig, sy'n ymwneud ag addysgu bydwragedd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor a Wrecsam (1998 - 2000);
- ymchwil Y Swyddog Datblygu Addysg Drwy Gyfrwng y Gymraeg i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog yn ysgolion uwchradd Gwynedd (1992 - 94).

Yn draddodiadol, lle cynigid addysg cyfrwng-Cymraeg, defnyddid grwpiau addysgu ar wahân. Y duedd bresennol mewn AB a rhai ysgolion, fodd bynnag, yw addysgu cyrsiau cyfrwng-Cymraeg fel rhan o addysgu dwyieithog ac amddiffynnid y drefn gan fwyafrif y staff a gyfwelwyd. Lleisiodd lleiafrif bychan o ddarlithwyr eu gwrthwynebiad cryf i'r dull hwn o drefnu grwpiau. O hyn ymlaen, dosbarthir y modelau yn ôl nifer yr ieithoedd y byddai myfyriwr unigol yn eu defnyddio wrth ddilyn y cwrs.

SEFYLLFAOEDD LLE MAE POB MYFYRIWR YN DEFNYDDIO UN IAITH YN UNIG

MODEL A - DOSBARTHIADAU CYMRAEG A SAESNEG AR WAHÂN

Defnyddir y model hwn mewn un sefydliad AB ac yn eang iawn mewn AU ac yn y sector uwchradd lle ceir digon o fyfyrwyr/disgyblion cyfrwng-Cymraeg i ffurfio grwpiau hyfyw. Yn anad dim model ydyw sy'n sicrhau hawliau myfyrwyr sydd wedi dewis astudio drwy gyfrwng un iaith yn unig.

Nodweddion cadarnhaol

- Mae'r darlithwyr yn dysgu mewn un iaith yn unig heb orfod canolbwyntio ar giwiau troi o'r naill iaith i'r llall.
- Gan fod y grwpiau'n cael eu haddysgu ar wahân nid oes rhaid i'r

Nodweddion negyddol

- Mewn un iaith yn unig mae'r myfyrwyr yn trafod eu pwnc. Nid yw hyn yn gwella'u galluedd dwyieithog.
- Mae rhedeg grwpiau ar wahân yn dyblu costau'r sefydliad.

darlithydd baratoi ddwywaith (h.y. yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer yr un sesiwn addysgu).

- Mae gan y darlithydd fwy o amser i helpu myfyrwyr â deunydd-pwnc, terminoleg a phroblemau iaith yn gyffredinol.
- Ni roddir cyfle i'r myfyriwr 'gau ei feddwl' pan ddefnyddia'r darlithydd y cyfrwng-iaith nad yw'r myfyriwr wedi ei ddewis.
- Ni pherir i'r myfyriwr (cyfrwng Cymraeg/cyfrwng Saesneg) deimlo'n annigonol nac israddol yn sgîl problemau iaith.
- Ni cheir pwysau gan gyfoedion i ddefnyddio iaith y mwyafrif (sy'n digwydd yn aml pan fo grŵp lleiafrifol yn cael hanner yr amser addysgu). Golyga hyn y bydd llai o fyfyrwyr cyfrwng-Cymraeg yn troi i'r cyfrwng-Saesneg ar ôl cyfnod byr.

MODEL B - GRWP IAU IAITH AR WAHÂN YN YR UN DOSBARTH

B (i) DULL LLEIAFSYMIOL

Yn y model hwn:

- ceir nodiadau yn y ddwy iaith;
- mae'r tryloywderau a ddefnyddir wrth gyflwyno yn ddwyieithog;
- trefnir grwpiau ar sail iaith;
- rhoddir cyfle i'r grŵp iaith leiafrifol drafod yn yr iaith leiafrifol ond disgwylir iddo newid i iaith y mwyafrif pan fydd y tiwtor yn ymweld â'r grŵp neu wrth roi adborth i'r dosbarth cyfan;
- mae'r darlithydd/tiwtor yn uniaith - yn gallu siarad yr iaith fwyafrifol yn unig;
- mae'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r asesu yn yr iaith fwyafrifol.

Gellid cyhuddo sefydliadau sy'n defnyddio'r dull hwn o 'gadw wyneb' yn achos yr

iaith Gymraeg er efallai ei bod yn ymgais ddilys i gynnig i'r myfyrwyr Cymraeg gyfle i drafod y deunydd cwricwlaidd yn y Gymraeg. Efallai y bydd hyn yn rhoi iddynt y profiad a'r hyder angenrheidiol i'w defnyddio'n helaethach yn y dyfodol.

Nodweddion cadarnhaol

- Rhydd gyfle i fyfyrwyr drafod drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyflwynir y termau perthnasol yn y ddwy iaith.
- Bydd yr holl ddeunydd cwrs a gaiff y myfyriwr wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg

Nodweddion negyddol

- Ni all y darlithydd/tiwtor gymryd rhan yn y trafod felly troir yn ôl i'r Saesneg (gall hyn fod yn nodwedd gadarnhaol wrth ystyried datblygiad dwyieithog pob unigolyn).
- Gall aelodau di-Gymraeg y grŵp weld y fath drefn fel symboleiddiaeth (tokenism) sy'n gwasgu ar eu hawliau uniaith hwy.
- Nid yw'r myfyrwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio termau Cymraeg gan na fydd rheiny yn cael eu defnyddio wrth asesu. Felly, ni ddysgant ddefnyddio'r termau yn eu cyd-destun ac ni ddaw'r termau Cymraeg yn rhan naturiol o'u cynhyrsgaeth ieithyddol.
- Cyfieithwyd y gwaith gan gyfieithydd. Ni fyddai'r tiwtor/darlithydd yn ymwybodol o unrhyw gamgymeriadau/wahaniaethau/draw ieithyddol amhriodol.

MODEL B - GRWPIAU IAITH GWAHANOL O FEWN YR UN DOSBARTH

B (ii) DULL 50-50

Mae Model B(ii) yn ddull sydd wedi'i gynllunio'n dda lle cyflwynir y cynnwys yn effeithiol a lle mae'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.

Yn y model hwn:

- mae darlithwyr yn cyfyngu'r addysgu dosbarth-cyfan i'r lleiafswm derbyniol posibl ac felly'n lleihau'r angen am ailadrodd diflas yn 'yr iaith arall';
- mae'r addysgu wedi'i ganoli i raddau helaethach ar y myfyriwr ac wedi'i seilio ar ddysgu gweithredol;
- mae'r nodiadau ar gael yn y ddwy iaith;
- mae'r tryloywderau a ddefnyddir wrth gyflwyno yn ddwyieithog;

- trefnir grwpiau ar sail iaith;
- rhoddir y cyfle i'r grwpiau iaith lleiafrifol a mwyafrifol fel ei gilydd ddilyn y cwrs cyfan yn eu dewis gyfrwng;
- mae'r darlithydd yn cyfieithu o'r iaith leiafrifol i'r iaith fwyafrifol; ni welir bod rhaid cyfieithu o'r iaith fywafrifol i'r iaith leiafrifol er bod darlithwyr yn aml yn ailadrodd pwytiau a chysyniadau pwysig yn y ddwy iaith;
- asesir yn newis gyfrwng y myfyriwr.

Seilir nodweddion cadarnhaol a negyddol y model hwn ar yr enghreifftiau mwyaf effeithlon a welwyd. Cydnabyddir na fyddai pob addysgu a dysgu yn y model 50:50 yn cynnwys nodweddion mor effeithiol â'r rhai a nodir.

Nodweddion cadarnhaol

- Mae pob myfyriwr yn gallu dilyn y cwrs yn ei ddewis iaith. Mae pob adnodd ysgrifenedig a gynhyrchir gan y darlithydd yn ddwyieithog.
- Gellir asesu yn yr iaith a ddewisir.
- Mae'r elfen ddwyieithog yn rhan o bolisi sefydliadol, derbyniol, cadarn. Fe'i gweithredir o'r cyfnod addysgu cyntaf un ac mae'n amlwg ym mhob llenyddiaeth berthnasol. Mae'n cael ei derbyn felly gan bawb.
- Mae'r darlithydd yn gyfarwydd â'r derminoleg gywir yn y ddwy iaith.
- Mae'n gost effeithiol ac yn gallu ymdopi â grwpiau ieithyddol anghyfartal.
- Mae wedi'i seilio ar fethodoleg addysgu sydd wedi'i gynllunio'n dda.

Nodweddion negyddol

- Yn anaml iawn y bydd llyfrau-testun, llyfrau cyfeirio, meddalwedd a.y.b., a ddarperir gan gyflenwyr allanol, ar gael yn ddwyieithog.
- Mae problemau'n codi wrth asesu cyrsiau gan fod asiantaethau'n methu darparu aseswyr/gwirwyr dwyieithog.
- Gall darlithwyr gael eu harwain gan fyfyrwyr i roi mwy o flaenoriaeth i un iaith rhagor na'r llall.
- Dyblir amser y paratoi.
- Lle mae niferoedd y Cymry-Cymraeg yn isel iawn o'u cymharu â'r grŵp Saesneg, efallai y bydd rhai'n teimlo y dylai'r amser a roddir i gyflwyno drwy'r Gymraeg gyd-fynd â nifer y myfyrwyr sydd yn y ddau grŵp.
- Ran amlaf, bydd raid i ddarlithwyr ddilyn rhaglen datblygu staff gynhwysfawr cyn medru cyflwyno cyrsiau dwyieithog yn effeithiol.

SEFYLLFAOEDD LLE MAE POB MYFYRIWR YN CAEL EI ANNOG I DDATBLYGU'N DDWYIEITHOG

MODEL C - DATBLYGU DWYIEITHRWYDD DRWY GYFRWNG SESIYNAU UNIAITH

Seilir y model hwn ar y dybiaeth y dylai myfyrwyr fod yn hollol ddwyieithog i gyfarfod ag anghenion cyflogwyr. Golyga hyn allu ymdrin â phob agwedd ar bwnc neu alwedigaeth yn y ddwy iaith. I'r perwyl hwnnw arfogir myfyrwyr ag ystod o sgiliau dwyieithog a'r gallu i ddefnyddio'r holl derminoleg yn briodol yn y ddwy iaith.

Mae'r model yn golygu addysgu modiwlau (neu rannau o'r cwrs) yn y gwahanol ieithoedd ar yn ail. Golyga hynny y bydd y myfyrwyr yn defnyddio'r termau perthnasol mewn cyd-destunau llafar ac ysgrifenedig ac yn trafod holl agweddau'r cwrs yn ddwyieithog dros gyfnod penodedig.

Nodweddion cadarnhaol

- Bydd y myfyrwyr yn dod yn gyfarwydd â holl agweddau'r cwrs yn y ddwy iaith dros gyfnod penodedig.
- Mae'n ddull o ddarparu dwyieithrwydd cynyddol.
- Bydd y medrau dwyieithog yn parhau i gael eu datblygu.
- Bydd y darlithwyr yn paratoi ar gyfer sesiynau uniaith drwy gydol y cwrs felly ni fydd ganddynt faich ychwanegol.
- Asesir y gwaith yn iaith y cyflwyno.
- Mae'r model yn arwain at fath naturiol ar ddwyieithrwydd.
- Nid yw'n golygu datblygu medrau'r staff mewn methodolegau addysgu dwyieithog.

Nodweddion negyddol

- Bydd holl aelodau'r grŵp yn gorfod cyrraedd trothwy meistrolaeth y cytunwyd arno yn y ddwy iaith.
- Bydd rhaid i'r darlithwyr fod yn gyfarwydd â therminoleg yn y ddwy iaith (er na ddefnyddir hwy ar yr un pryd).
- O'i gamddefnyddio, gall arwain at sefyllfa athro-ganolog ac at or-ddibyniaeth ar gyflwyno llafar.

MODEL D - CYFLWYNO LLAFAR SAESNEG: ASESU UNIGOLION YN DDWYIEITHOG

Mae'r model hwn yn economaidd ac fe'i defnyddir:

- lle mae gofyn gan unigolion am asesiad cyfrwng-Cymraeg; neu
- lle mae'r sefydliadau'u hunain yn annog asesu cyfrwng-Cymraeg er mwyn elwa o'r cyllido ffactor eilyddol.

Dyma'r nodweddion cyffredinol:

- digwydd yr holl addysgu dosbarth drwy gyfrwng y Saesneg;
- yn amlach na pheidio nid yw'r darlithwyr yn gallu siarad Cymraeg;
- weithiau, cyfieithir nodiadau i'r Gymraeg gan gyfieithydd; dro arall disgwylir i'r myfyrwyr gyfieithu'r nodiadau Saesneg a roddir iddynt drostynt eu hunain;
- anogir, neu rhoddir cyfle i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg wneud eu haseiniadau/asesiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg ac i gael eu hasesu'n llafar drwy gyfrwng y Gymraeg;
- defnyddir cyfieithydd, fel arfer siaradwr Cymraeg o'r adran neu o adran arall, i fod yn gyfryngwr/gyfieithydd yn ystod yr asesu llafar a chyfieithir y gwaith ysgrifenedig fel arfer;
- mae rhai sefydliadau'n darparu mwy o gefnogaeth neu/ac anogaeth nag eraill e.e. cymorth ieithyddol i fyfyrwyr.

Gellid dadlau fod y fformiwla gyllido a fodolai mewn AB cyn 1997 yn fodd i hyrwyddo'r model hwn.

Nodweddion cadarnhaol

- Cynigir y cyfle i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith gael eu hasesu yn eu dewis iaith.

Nodweddion negyddol

- Nid yw'r myfyrwyr yn profi cyflwyno cyfrwng-Cymraeg lle mae (i) termau'n cael eu defnyddio yn eu cyd-destun a (ii) lle mae cyfle i drafod deunydd pwnc yn y cywair iaith priodol.
- Nid yw profiad addysgol ieithyddol y lleiafrif hwn yn hafal i brofiad y myfyrwyr cyfrwng-Saesneg ac mae hyn yn arwain at ddiffyg cyfle

- cyfartal.
- Darperir rhywfaint o gynhaliath ar brydiau e.e. cyfieithu deunydd addysgu, cyfryngwyr ar gyfer asesu llafar, etc.
 - Galluoga'r model hwn i'r myfyriwr drafod y pwnc yn ddwyieithog. Gellid dadlau fod hyn yn fodd i ddatblygu dealltwriaeth o gysyniadau'r pwnc yn ogystal ag yn fodd i feithrin gallu dwyieithog y myfyrwr.
 - Gall sefydliadau sydd heb staff cyfrwng-Cymraeg gynnig rhywfaint o brofiadau dysgu/addysgu cyfrwng-Cymraeg.
 - Pan ddisgwylir i fyfyrwyr gyfieithu'u hunain, rhoddir baich diangen ar unigolion.
 - Gall y gyfundrefn asesu hefyd roddi baich ychwanegol ar fyfyrwyr gan eu bod efallai yn ansicr o'r derminoleg Gymraeg briodol neu'n teimlo nad yw cywair eu hiaith yn addas dan yr amgylchiadau.
 - Lle defnyddir darlithwyr o'r coleg fel cyfryngwyr/cyfieithwyr gall y ffaith nad ydynt yn gyfarwydd â'r pwnc, terminoleg a.y.b. wneud sefyllfa lle ceir tensiwn yn waeth fyth.
 - Cynhyrcha cyfieithwyr nad ydynt yn gyfarwydd â'r pwnc gyfieithiadau sydd yn anodd i fyfyrwyr neu/ac asesywyr eu dilyn.

MODEL E - CYFLWYNIAD LLAFAR YN Y GYMRAEG NEU'N DDWYIEITHOG: GWAITH YSGRIFENEDIG AC ASESIAU YN SAESNEG

Mewn llawer o ardaloedd Cymraeg, ac yn yr ysgolion dwyieithog, dyma'r model chweched dosbarth traddodiadol. Bydd y disgyblion i gyd a'r athro'n ddwyieithog, ond bydd yr asesiad ysgrifenedig yn Saesneg. Defnyddir terminoleg Saesneg ar lafar mewn brawddegau Cymraeg a bydd yr holl adnoddau drwy gyfrwng y Saesneg.

Yn y model hwn, yn y sector Addysg Bellach, bydd unigolion yn dewis cael asesu eu gwaith ysgrifenedig yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg ond bydd yr asesu llafar yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg i bob myfyriwr.

Nodweddion cadarnhaol

- Mae'r cyflwyno llafar yn ymddangos yn naturiol.

Nodweddion negyddol

- Yn academiaidd ac yn broffesiynol nid yw gofynion yr iaith Gymraeg mor llym gan fod llawer o eiriau ac ymadroddion Saesneg yn cael eu

defnyddio.

- Mae'r model hwn yn galluogi i'r myfyriwr unigol drafod y pwnc yn ddwyieithog ar lafar; gellir dadlau felly ei bod yn ffordd o ddatblygu dwyieithrwydd.
- Gan fod y myfyrrwyr fel arfer yn methu defnyddio holl ystod y derminoleg Gymraeg, gellid cyhuddo'r model hwn o beidio â darparu profiad dwyieithog cytbwys.

Rydym' yn credu fod:

- Model A** yn fodel derbyniol ond y gall fod yn aneconomaidd lle mae'r niferoedd mewn un grŵp ieithyddol yn isel. Nid yw'n arwain at ddatblygiad dwyieithog cytbwys yn achos myfyrrwyr unigol, ond efallai ei fod yn haws i ddarlithwyr ei weithredu.
- Model B(ii)** yn fodel derbyniol lle mae'r darlithydd yn sicrhau tegwch i'r ddwy iaith a lle mae blaen-gynllunio wedi sicrhau fod pob deunydd sy'n deillio o'r coleg yn ddwyieithog. Mae gofyn i ddarlithwyr lynu hefyd at eu polisi iaith ac at y defnydd bwriadus o'r naill iaith a'r llall. Mae'r model hwn yn haeddu sylw ymchwilwyr ac yn sgîl hynny yn haeddu ei ddatblygu a'i roi ar waith fel model cyflwyno dwyieithog cydnabyddedig.
- Model C** yn dderbyniol lle mae holl fyfyrwyr y grŵp wedi cyrraedd safon o fedrusrwydd derbyniol yn y ddwy iaith. Gellid ei ddatblygu yn y cadarnleoedd cyfrwng-Cymraeg. Fodd bynnag, byddai dyfodiad disymwth myfyriwr heb fod â'r Gymraeg fel ail-iaith yn gorfodi newid o'r model hwn.

Dylai'r modelau hyn i gyd gael eu hystyried ar gyfer cyllido llawn ar yr amod fod Modelau B(ii) ac C yn cael eu gweithredu ar sail 50:50 neu fod yr elfen cyfrwng-Cymraeg heb fod yn llai na 40%.

- Model B(i)** yn fodel lleiafysymiol lle mae sefydliadau'n cydnabod hawliau'r unigolyn. Efallai y bydd rhai sefydliadau'n teimlo'r angen i barhau â'r model hwn am gyfnod gan mai dyma'r unig ffordd sydd ganddynt o ymateb i ofynion unigol rhai sydd am astudio drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, dylai'r adran/coleg anelu at ddirwyn y model hwn i ben a dilyn un o'r 3 model derbyniol o fewn cyfnod rhesymol e.e. 3 blynedd.
- Model D** yn gallu cael ei weld fel ffordd o dderbyn cyllido ffactor eilyddol heb ddarparu'r rhwydwaith mewnol angenrheidiol. Dylid ei anghymeradwyo.
- Model E** Gan nad yw'n ymgais ddilys i ymdrin â chynnwys pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg, dylid ei anghymeradwyo.

Ein cred ni yw y dylid sicrhau perthynas uniongyrchol rhwng y modelau addysgu hyn

a'r cyllido er mwyn datblygu addysgu cyfrwng-Cymraeg a dwyieithog o fewn y sector. Dylid addasu CDMUau a'r CMSau i gynnwys cyfeiriad penodol at y model addysgu ar gyfer pob maes cwricwlaidd. Gellid wedyn wirio'r wybodaeth hon drwy'r dulliau awdit arferol.

Argymhellwn felly:

Mai dim ond 60% y dylai Modelau D ac E ei gael o'r cyfanswm cyllido. Ni ddylent gael eu cyllido o gwbl ar ôl 3 blynedd.

Y dylid derbyn Model B(i)

- yn yr ardaloedd Seisnig hynny lle'r ymddengys mai hwnnw yw'r unig ddewis ymarferol;
- lle y'i gwelir fel modd i gynnig darpariaeth hawliadwy i fyfyrwr unigol neu grŵp bychan a chyn ei ddatblygu naill ai'n Fodel A, B(ii) neu C.

Y dylai modelau addysgu dwyieithog A, B(ii) ac C(Rhan 9) dderbyn y cyllid addysgu cyfrwng-Gymraeg yn llawn. Y dylai B(i) dderbyn cyllid llawn am gyfnod o 3 mlynedd.

MODELAU YCHWANEGOL

Model ychwanegol a fydd yn cael ei weithredu yn ystod sesiwn 2000-2001 yw'r un sy'n dilyn. Mae'n ymdebygu i fodelau B a byddid yn ei ystyried ar gyfer cyllido llawn.

MODEL B - GRWPIAU IAITH AR WAHÂN YN YR UN DOSBARTH

B (iii) Darlith 'Fawr': grwpiau llai gyda thiwtoriaid

Model yw hwn y bwriedir ei ddefnyddio yn ystod y sesiwn 2000-2001 mewn adran fawr yn un coleg. Yn y model, sy'n addas ar gyfer sesiynau lle mae grŵp anferth o 100+ yn gwrandao ar ddarlith yn yr iaith Saesneg fel arfer e.e. cwrs craidd i bawb sy'n dilyn y maes neu ddarlith wythnosol gan aelod o'r adran neu ddarlithydd wedi ei wahodd. Yn aml, ar ôl y ddarlith mae cyfle i'r dosbarth rannu'n grwpiau dan ofal tiwtoriaid i drafod, cymhwyso ac ymestyn ar yr hyn a glywyd. Mae lle yma felly i un neu fwy o'r grwpiau hynny fod yn rhai Cymraeg lle mae tiwtoriaid dwyieithog ar gael yn yr adran. Nodweddion y dylid eu mynnu:

- nodiadau yn y ddwy iaith;
- tryloywderau a ddefnyddir wrth gyflwyno yn ddwyieithog;
- trefnu'r grwpiau trafod/tiworial ar sail iaith;
- y grŵp iaith leiafrifol yn trafod yn yr iaith honno gyda thiwtor dwyieithog yn arwain y grŵp;
- ar gyfer cyflwyno adborth i'r dosbarth cyfan (os yw hynny'n berthnasol) (i) myfyriwr o'r grŵp neu (ii) y tiwtor, yn cyflwyno'n yr iaith fwyafrifol.
- y prif ddarlithydd yn uniaith - yn gallu siarad yr iaith fwyafrifol yn unig; y tiwtor

yn ddwyieithog ac yn meddu ar y termau a'r ieithwedd bynciol addas yn y ddwy iaith;

- y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r asesu yn yr iaith fwyafrifol.

Mae hwn yn ateb ymarferol cadarnhaol sy'n cynnig yr un profiadau i'r garfan Saesneg a Chymraeg ac nid yw'n gwneud i'r garfan Gymraeg deimlo'n israddol o gwbl. Mae'n rhoi'r cyfle iddyn nhw glywed cyfraniad y prif ddarlithydd yn y Saesneg a thrafod y gwaith yn Gymraeg; profiad a allai trwy ddefnyddio'r medr trawsieithu'n effeithiol, gynnig mantais iddyn nhw o safbwynt deall y gwaith yn drylwyr.

Nodweddion cadarnhaol

- Rhydd gyfle i fyfyrwyr drafod drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Maen nhw'n cael profiad o'r maes trwy gyfrwng y ddwy iaith: gall hynny arwain at ddealltwriaeth ddyfnach.
- Cyflwynir y termau perthnasol yn y ddwy iaith.
- Bydd yr holl ddeunydd cwrs a gaiff y myfyriwr wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg.

Nodweddion negyddol

- Os mai cyfieithydd a fyddai'n cyfieithu'r gwaith ni fyddai'r darlithydd yn ymwybodol o unrhyw gamgymeriadau / wahaniaethau / draw ieithyddol amhriodol. (Ond gellid dileu hyn os yw'r tiwtor a'r prif ddarlithydd yn ymgynghori ymlaen llaw.)

MODEL F

Agweddau Ymarferol

Yn aml, mae'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth yn gwahaniaethu beth oddi wrth yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn polisi cyfrwng. Gwelwyd hyn yn achos pob un o'r modelau uchod. Wrth ganolbwyntio ar y modelau dysgu trwy'r Gymraeg, dyma'r agweddau mwyaf cyffredin o safbwynt gwyrdd oddi wrth yr hyn sydd yn y polisi ysgrifenedig:

- **Sesiynau trwy'r Gymraeg yn troi'n sesiynau dwyieithog.** Y prif reswm am hyn oedd bod unigolion neu grŵp yn ddysgwyr profiadol ac roedd yr athrawon / darlithwyr yn defnyddio'r Saesneg i gadarnhau'r dysgu ac i sicrhau bod y dehongliad yn gywir.
- **Llawer o drafod yn y dosbarth yn drafod dwyieithog neu'n cynnwys hanfodion dwyieithog er bod y dosbarth i gyd yn ddwyieithog.** Yr un rheswm yn union sydd yn gyfrifol am hyn ag a restrwyd o dan bwynt bwled 1 uchod. Yn achlysurol ailadroddir term / termau / diffiniad / esboniad yn ddwyieithog gyda grŵp o Gymry er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn pan fydd y disgyblion / myfyrrwyr yn defnyddio deunydd cyfeiriol Saesneg.
- **Llawer o'r gyfeiriadaeth yn Saesneg.** Mae hyn yn anorfod gan fod cymaint o ddeunydd cyfeiriol ar gael yn yr iaith Saesneg a hynny mewn print ac ar y We. Yr hyn y dylid ei ystyried yw sut y mae manteisio ar y ffaith bod

y disgyblion a'r myfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg hefyd yn gallu cael mynediad at yr holl ddeunyddiau ardderchog sydd ar gael iddyn nhw yn y Saesneg. Dylid gweld hyn yn elfen gadarnhaol yn y broses ddysgu a dylai arwain at ddablygu'r trawsieithu fel sgil a fyddai'n galluogi'r myfyrwyr i droi'n hyderus o'r naill iaith i'r llall.

- **Trawsieithuⁱⁱ yn llafar ac yn ysgrifenedig yn digwydd yn naturiol yn y dosbarth.** Weithiau, mae hynny'n digwydd heb i'r darlithwyr / athrawon na'r myfyrwyr / disgyblion sylweddoli eu bod yn defnyddio sgil gwerthfawr a pherthnasol iawn o safbwynt datblygu a chynnal dwyieithrwydd. Yr hyn sydd angen ei ystyried yw sut y mae datblygu trawsieithu er mwyn cryfhau hyder yn y ddwy iaith. Dylid gwneud hyn fel na bo'r myfyrwyr / disgyblion yn teimlo mai baich ychwanegol yw'r ffaith bod cyfran helaeth o'r deunyddiau cyfeiriol yn y Saesneg er eu bod wedi dewis astudio trwy'r Gymraeg. Mae trawsieithu hefyd yn fodd i ddatblygu hyder y dysgwyr yn y Gymraeg ac i'w gwneud hi'n bosib iddynt hwythau ddatblygu eu dwyieithrwydd
- **Hawl i wneud aseiniadau a/neu asesiadau yn Saesneg.** Mae rhai sy'n teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon cadarn ar gyfer asesiadau swyddogol (bod rheiny'n aseiniadau neu'n arholiadau). Yn aml dysgwyr ydynt neu rai, mewn addysg uwch, nad ydynt wedi defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng cyn hynny. Yn yr achosion hyn, dylid ystyried a ddylent wneud canran o'u haseiniadau ac asesiadau yn y Gymraeg.

Cadarnhaol / Positive

- Model addas iawn i ddysgwyr da (+ rhai Cymry)
- Trawsieithu'n cryfhau'r 2 iaith o'i ddefnyddio'n iawn
- Dim yn golygu llawer o newid trefniadaeth / paratoi ychwanegol

Negyddol

- Gallai arwain at ddefnydd annewisol o'r ddwy iaith gan y darlithydd / athrawon neu'r myfyrwyr / disgyblion

ⁱ 'Astudiaeth o'r Ddarpariaeth Cyfrwng-Cymraeg yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru' - Adroddiad ar astudiaeth a wnaethpwyd gan yr Athro Colin Baker, Mr Gareth Davies-Jones, Dr Geraint Wyn Jones a Dr Cen Williams i ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg yn y sector Addysg Bellach 1999 -2000. Ar gael yn llawn ar safle gwe ELWa.

ⁱⁱ Y diffiniad symlaf yw - derbyn gwybodaeth mewn un iaith ac yna, ei defnyddio yn yr iaith arall. Fel rheol, mae'n golygu derbyn gwybodaeth trwy'r medrau iaith goddefol (gwrando a darllen) yn un iaith; a'i drosglwyddo neu ei aildrefnu yn yr iaith arall trwy ddefnyddio'r medrau iaith gweithredol (siarad ac ysgrifennu).

Atodiad C – Trawsieithu

Mae trawsieithu'n ymwneud â defnyddio'r naill iaith i gryfhau'r llall:

- i. er mwyn cryfhau'r dealltwriaeth, a
- ii. i gryfhau gallu'r disgybl yn y ddwy iaith

Sgil naturiol ydyw i unrhyw berson dwyieithog.

Un dull neu strategaeth ar gyfer gwneud hynny yw Trawsieithu. Gwêl Baker (2000) ei bosibiliadau:

"Translanguaging has two potential advantages. It may promote a deeper and fuller understanding of the subject matter. It is possible in a monolingual context, for students to answer questions or write an essay without fully understanding the subject. Whole sentences or paragraphs can be copied or adapted from a textbook without rarely understanding them. This is less easy in a bilingual situation. To read and discuss a topic in one language, and then to write about it in another, means that the subject matter has to be properly 'digested' and reconstructed. Translanguaging may also help students develop skills in their weaker language...."

(*The Care and Education of Young Bilinguals*. Multilingual Matters, 2000. t104-105)

Mae'r plentyn wedi:

- ❖ mewnoli geiriau'r dyn a oedd yn galw;
- ❖ eu rhoi yn ei eiriau ei hun, ac yna
- ❖ trawsieithu'r neges i'r iaith arall er mwyn ei chyfleu i'w dad
- ❖ adeiladu arni trwy ofyn a gaiff fynd gyda'i dad i'w nôl.

Trawsieithu yw hyn, nid cyfieithu. Mae cyfieithu'n grefft arbenigol sy'n golygu rhoi popeth a ddywedwyd yn yr iaith arall, ac yn yr un drefn yn aml. Yr hyn a ddigwyddodd yma yw ei fod wedi cyfleu'r neges yn ei eiriau ei hun i'r tad. Mae'n gofyn:

- ❖ dealltwriaeth lawn o'r iaith y mae'n derbyn y neges ynddi a
- ❖ digon o eirfa a meistrolaeth ar yr iaith arall i allu ei chyfleu, h.y.
- ❖ dealltwriaeth oddefol o ddwy iaith, a
- ❖ gallu gweithredol yn un o'r ieithoedd. (Ond sylwch, yn yr enghraifft yma mae gan y plentyn allu gweithredol yn y ddwy; mae'n gallu cynnal sgwrs â'r galwr a chyfleu'r neges yn llawn i'r tad.)

Mae posibiliadau cyffrous ac eang iawn i'r sgil trawsieithu mewn datblygu dwy iaith, ond hyd yma, ychydig iawn o athrawon sy'n fodlon mentro defnyddio'r ddwy iaith yn yr un dosbarth. I unigolyn gweithredol ddwyieithog, mae trawsieithu'n ffordd naturiol o ddatblygu ac atgyfnerthu'r ddwy iaith tra'n dyfnhau dealltwriaeth bynciol yr un pryd.